

# Cynaliadwyedd strategol

Sut mae Parc Cenedlaethol Eryri yn cysylltu cynaliadwyedd ac yn sicrhau cydbwysedd.



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)




Image tagline

## Trosolwg

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE) yn uno llinynnau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd cynaliadwyedd i sicrhau bod y Parc Cenedlaethol yn parhau i fod yn lle unigryw ac arbennig, nawr ac yn y dyfodol

## Cefndir

Sefydlwyd Parc Cenedlaethol Eryri ym 1951, a dyma'r Parc Cenedlaethol mwyaf yng Nghymru. Mae'n gartref i 26,000 o bobl. Mae'n ardal unigryw sydd â golygfeydd gwefreiddiol, ardaloedd sy'n sensitif yn amgylcheddol, poblogaeth sy'n siarad Cymraeg ac amrywiaeth o heriau a chyfleoedd economaidd. Gyda 6 miliwn o dwristiaid yn ymweld bob blwyddyn, mae'r dirwedd a'r diwylliant cyfoethog yn gyfle i ffynnu, ac mae'n cynhyrchu allbwn economaidd o tua £60 miliwn; tra bod prisiau uchel tai, diffyg cyfleoedd i bobl ifanc a dirywiad cymunedau sy'n siarad Cymraeg yn heriau sy'n parhau.

Yn ei weledigaeth ar gyfer 2035, fe fydd y Parc Cenedlaethol yn parhau i fod yn dirwedd dan warchodaeth sy'n esblygu, ac fe fydd yn cael ei warchod a'i wella i ddarparu amgylchedd naturiol cyfoethog ac amrywiol sy'n cynnig buddion cymdeithasol, economaidd a lles yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

### Canlyniadau

**Pennu canlyniadau sy'n ychwanegu at les Cymru**

### Tystiolaeth

**Gwneud penderfyniadau gan ddefnyddio gwell gwybodaeth**

### Cydweithio

**Gweithio gydag eraill ar draws ffiniau**

### Hir dymor

**Rhoi sylw i'r achos yn hytrach na'r symptomau**

### Cysylltu

**Canolbwyntio ar y manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol**

### Tryloywder

**Mesur y gwahaniaeth yr ydych chi'n ei wneud ac adrodd arno**

Dyma un o gyfres o straeon ar ddatblygu cynaliadwy sydd i'w gweld ar wefan Astudiaethau Achos Llywodraeth Cymru <http://wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/>

Yn ei weledigaeth ar gyfer 2035, fe fydd y Parc Cenedlaethol yn parhau i fod yn dirwedd dan warchodaeth sy'n esblygu, ac fe fydd yn cael ei warchod a'i wella i ddarparu amgylchedd naturiol cyfoethog ac amrywiol sy'n cynnig buddion cymdeithasol, economaidd a lles yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

### Pam

Ymgorfforwyd ffocws APCE ar gynaliadwyedd yn ei weithrediadau ers 1995, trwy Ddeddf yr Amgylchedd, gyda'r ddyletswydd i warchod amgylchedd yr ardal ac i hybu lles cymdeithasol ac economaidd cymunedau o fewn y Parc Cenedlaethol.

Mae Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol yn ymateb i lythyr cylch gwaith blynyddol Llywodraeth Cymru ac yn gosod canlyniadau yn ymwneud â meysydd fel y gymuned, newid hinsawdd, carbon a'r amgylchedd. Er bod llawer o waith APCE wedi ei yrru, yn anochel, gan dargedau'r llywodraeth, mae hefyd yn awyddus i fod yn wely profi ar gyfer cynliadwyedd.

Mae gwaith APCE gyda phartneriaid hefyd yn gyrru cynaliadwyedd, er enghraifft cytuno i fenter carbon Cyngor Gwynedd, sy'n ostyngiad o 60% erbyn 2020 ac yn rhagori ar dargedau Llywodraeth Cymru.

### Beth wnaethon nhw

Ym 1996 fe gytunodd APCE y dylai 'egwyddor cynaliadwyedd fod yn ganolog i bob polisi, cynllun a rhaglen yn y dyfodol'.

Os oes gwrthdaro rhwng y ddau ddiben statudol – gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol yr ardal, a hybu cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall rhinweddau arbennig yr ardal, a'u mwynhau - mae egwyddor sylfaenol 'Sandford' yn gofyn bod y diben cyntaf (gwarchod) yn cael blaenoriaeth.

Trwy ymgynghori a thrafod, mae APCE wedi nodi'r rhinweddau arbennig sy'n diffinio nodweddion y Parc Cenedlaethol ac yn ei osod ar wahân. Mae'r rhinweddau hyn, sy'n cynnwys amrywiaeth y dirwedd, cydlynid cymunedol a'r iaith Gymraeg yn bwydo ymagwedd APCE ac yn pennu'r hyn sy'n bwysig yn y tymor hir.

Mae Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Eryri yn gosod nod ac amcanion strategol APCE dros bum mlynedd a gweithredoedd tymor byr dros ddwy flynedd ac yn cynnwys chwe phrif faes:

1. Rheoli Carbon
2. Gwella Cynefinoedd
3. Gwella Tirweddau
4. Hybu Treftadaeth Ddiwylliannol
5. Gwella cyfleoedd i Bawb gael Mynediad a Dealltwriaeth
6. Cefnogi Cymunedau Cynaliadwy

Mae gan bob maes amcanion allweddol a chamau gweithredu. Er enghraifft, un o'r camau gweithredu ar gyfer Rheoli Carbon yw edrych ar wella effeithlonrwydd ynni adeiladau trwy ddylunio cynaliadwy. Mae APCE wedi cyhoeddi "Arweiniad ar gyfer Dylunio Cynaliadwy", i gynnig cyngor ar dechnoleg ynni adnewyddadwy addas, effeithlonrwydd ynni ac awgrymiadau ar gyfer y lleoliadau gorau ar gyfer datblygiadau newydd.

Dyma un o gyfres o straeon ar ddatblygu cynaliadwy sydd i'w gweld ar wefan Astudiaethau Achos Llywodraeth Cymru <http://wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/>

Mae partneriaeth yn hanfodol i ymagwedd APCE. Mae gweithio gyda mudiadau, cymunedau ac ymwelwyr yn annog dealltwriaeth, ac yn ymgorffori gweledigaeth ac egwyddorion sylfaenol APCE i'w dogfennau a'u camau gweithredu, gan sicrhau bod nodau cyffredin yn cael eu cyflawni a'u bod yn rhannu cyfrifoldeb.

Mae APCE yn gweithio'n agos gyda chymunedau ac yn cwrdd yn rheolaidd gyda chynghorwyr cymuned i geisio datrys materion fel darparu tai fforddiadwy ac economi lleol sy'n weddol wan. Mae APCE yn ceisio taclo'r heriau hyn trwy hybu buddsoddiad, a'i ddenu, ar gyfer y sector nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol, trwy ynni adnewyddadwy, bwydydd lleol, ymchwil a datblygiad, twristiaeth gynaliadwy a hamdden awyr agored.

### Pa rwystrau oedd yn bodoli

Mae sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion cymunedau, targedau'r llywodraeth a gweledigaeth hir dymor yn gallu bod yn her. Mae APCE yn cymryd safbwynt rhagweithiol i

oresgyn hyn trwy ymgynghori â rhanddeiliaid, ymgysylltu â hwy a'u cynnwys. Her anochel arall yw adnoddau a chyllidebau.

Mae cynhyrchu tai lleol, fforddiadwy sy'n gynaliadwy, yn golygu gwneud penderfyniadau anodd ac weithiau mae'n golygu bod yn bragmatig. Mae mwyafrif y stoc tai yn y Parc Cenedlaethol yn dod o gyfnod cyn 1970, gyda 1900 o dai wedi eu rhestru neu â statws ardal cadwraeth, ac felly mae'n anodd gwella eu heffeithlonrwydd o ran ynni. Mae APCE yn bartner mewn prosiect Ewropeaidd i sicrhau bod adeiladau cyfan yn fwy ynni-effeithlon gan ddefnyddio technoleg fodern, cladin a phaent.

Trwy'r prosiect hwn, gall APCE hyfforddi pobl yn y sgiliau perthnasol a'u helpu i aros yn yr ardal leol a gwella datblygiad economaidd.

Rhaid gwneud penderfyniadau anodd mewn perthynas ag amcanion, er enghraifft mewn perthynas â thai. Yn gyffredinol, mae APCE yn ceisio gwthio datblygwyr i fynd am y cam uchaf o fewn y Cod Cartrefi Cynaliadwy, ond pan fydd ymarferoldeb cynllun da yn y fantol, ac nid yw'n ymarferol yn ariannol, mae APCE wedi gorfod cymryd y penderfyniad strategol i ostwng y gost trwy, er enghraifft, fod yn llai llym ar gyfyngiadau, er enghraifft cladin carreg a thoi llechi.

*"Am ein bod ni'n fach ac wedi ein cyfyngu gan adnoddau, nid yw bob tro'n bosib i ni wneud cymaint ag yr hoffem ni, yn enwedig o ran datblygiad economaidd cynaliadwy. Gyda chyllideb o £6-9 miliwn y flwyddyn, fedrwch chi ddim buddsoddi mewn prosiectau fel y dymunech chi. Mae yna lawer o bethau yr hoffem ni eu gwneud ond mae'n ddibynnol ar yr adnoddau sydd ar gael. Mae'n golygu sylweddoli beth fedrwn ni ei wneud o fewn ein cyllidebau."*

Ifer Gwyn, Prif Swyddog Polisi,  
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

### Beth newidiodd

Trwy'r chwe phrif faes yn y cynllun rheoli, mae APCE wedi gweld cynnydd da, gyda'r enghreifftiau nodedig hyn:

- Adeiladu ffrydiau refeniw trwy osod technoleg ynni adnewyddadwy i bweru eu hadeiladau eu hunain. Fe fydd

cynllun hydro ym Mhlas Tan y Bwlch, er enghraifft, yn rhoi gostyngiad o 22% tuag at ôl troed carbon APCE ar y cyfan. Fe fydd yr arian sy'n cael ei arbed trwy hyn yn cael ei yrru yn ôl i mewn i raglenni'r dyfodol.

Dyma un o gyfres o straeon ar ddatblygu cynaliadwy sydd i'w gweld ar wefan Astudiaethau Achos Llywodraeth Cymru <http://wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/>

- Trwy bartneriaeth gyda Chyfoeth Naturiol Cymru a pherchnogion tir, mae APCE wedi bod yn gweithio ar adfer gorgorsydd dros ardal o 43 hectar, i sicrhau atafaeliad carbon, gwella ansawdd y dŵr a chyflwyno buddion i ecoleg a'r dirwedd.
- Trwy'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy, mae APCE wedi rhoi dros £3 miliwn ar gyfer prosiectau sy'n cefnogi gweledigaeth y Parc Cenedlaethol ac wedi datgloi dros £24 miliwn o arian cyfatebol.

## Beth ddysgon nhw

Mae bod yn fudiad bach wedi helpu APCE i fynd ar drywydd amcanion cynaliadwyedd, gwthio'r ffiniau a gosod safonau uchel. Mae gosod y cyd-destun cynaliadwyedd o amgylch natur unigryw a 'rhinweddau

arbennig' y Parc Cenedlaethol wedi rhoi thema ddealladwy gyffredin i'r agenda i randdeiliaid.

Roedd gweithio gyda phartneriaid a chael barn arbenigwyr yn hanfodol. Mae APCE wedi gweithio'n dda gyda mudiadau fel yr Ymddiriedolaeth Garbon i ddarparu arbedion ynni sylweddol ar ei adeiladau a'i ystad.

Mae APCE wedi dysgu gwerth methu a chymryd risgiau wedi'u mesur. Mae'n cydnabod na fydd pob dim yn gweithio ac mae'n hapus i fod yn wely profi ar gyfer syniadau ac i gydweithio gydag eraill.

APCE oedd y cyntaf i fuddsoddi yn Sefydliad Cymru ar gyfer Addysg Gynaliadwy Canolfan y Dechnoleg Amgen, i dalu ffioedd y pensaer, a oedd yn gymorth i ddenu buddsoddiad arall yr oedd ei angen.

Nawr, mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn ceisio gweithio'n agosach gyda busnesau i gysylltu datblygiad economaidd at economi lleol mwy cynaliadwy.

Mae APCE yn dechrau ymgysylltu â busnesau ynghylch y cyfleoedd a gyflwynir law yn llaw â gosod llwybrau amldefnydd yn yr ardal. Mae hefyd yn edrych ar rodd ymwelwyr, ble mae £2 o dâl, er enghraifft, yn cael ei ychwanegu at fil y gwesty i helpu cyfrannu at gynnal y Parc Cenedlaethol a chreu sector twristiaeth sy'n fwy cynaliadwy. Yn ychwanegol at hyn, mae wedi defnyddio nawdd Croeso Cymru i ddarparu ymweliadau un-i-un ar gyfer busnesau twristiaeth sy'n awyddus i wella'u cynaliadwyedd amgylcheddol.

## Manylion Cyswllt a Dolenni

**Keith O'Brien**  
 Swyddog Cynaliadwyedd Awdurdod Parc  
 Cenedlaethol Eryri  
[Keith.O'Brien@eryri-npa.gov.uk](mailto:Keith.O'Brien@eryri-npa.gov.uk)

Tudalennau Amgylchedd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri  
 Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Eryri  
 Adeilad Sefydliad Cymru ar gyfer Addysg Gynaliadwy  
 Canolfan y Dechnoleg Amgen

"Rydyn ni wedi tueddu gadael rolau cynghori busnesau i'r llywodraeth a gwasanaeth adfywio ein hawdurdodau lleol, ond mewn gwirionedd, gyda sgiliau ein staff, gallwn chwarae rhan bwysicach. Dylai datblygiad economaidd mewn Parciau Cenedlaethol fod yn seiliedig, i raddau helaeth, ar asedau naturiol a'u defnydd cynaliadwy, naill ai ar gyfer cynhyrchu neu fwynhau."

Ifer Gwyn, Prif Swyddog Polisi,  
 Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Dyma un o gyfres o straeon ar ddatblygu cynaliadwy sydd i'w gweld ar wefan Astudiaethau Achos Llywodraeth Cymru <http://wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/>